Gareth Morgans, B.Ed., M.Sc.

Prif Swyddog Addysg,
Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB

Chief Education Officer
Department for Education & Children,
Building 2, St David's Park,
Jobs Well Road, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 3HB

Gofynner am / Please ask for:	Gareth Morgans
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:	*01267 246450*
E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail:	EDGMorgans@sirgar.gov.uk
Dyddiad / Date:	4-11-15

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

PRESENOLDEB YSGOL

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi am gefnogi ein hymdrechion i wella presenoldeb ysgol yn Sir Gaerfyrddin ac i ofyn am eich cydweithrediad wrth barhau i wella presenoldeb er budd ein plant a'n pobl ifanc.

Mae gwella presenoldeb ysgol yn flaenoriaeth i ni yn Sir Gâr a'r rhanbarth **ERW*** ac mae dull cyffredin o wella presenoldeb ysgol yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, gallwch fod yn sicr bod unrhyw newidiadau a phenderfyniadau a wneir er budd gorau'r plentyn.

O edrych ar bresenoldeb ysgol yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2014/15 rydym wedi gweld gwelliant sylweddol.

	Presenoldeb 2013/2014	**Presenoldeb 2014/2015**
Ysgolion Cynradd	95%	95.2%
Ysgolion Uwchradd	93.9%	94.2%

Mae pob un ohonom yn parhau i weithio'n galed i wella safonau a chanlyniadau ein plant a phobl ifanc ac yr wyf yn gwybod eich bod yn ymwybodol bod perthynas glir ac uniongyrchol rhwng presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol a chyflawniad disgyblion. Rydym wedi gweld gwelliannau mewn safonau ar draws y sir a'r rhanbarth eleni, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, a gwn fod rhywfaint o hyn yn ganlyniad i well presenoldeb ysgol.

Er y bu cynnydd sylweddol eleni mae angen i ni barhau i fynd i'r afael â'r mater hwn er lles ein plant a'n pobl ifanc. Er mwyn sicrhau gwelliant pellach hoffwn eich atgoffa o'r canlynol-

- *Mae Sir Gâr, Llywodraeth Cymru ac ERW yn disgwyl i bob disgybl fynychu'r ysgol o leiaf 95% o'r amser.*

- *Mae colli ysgol yn peryglu siawns y dysgwr o gyflawni ei botensial/photensial gan fod presenoldeb rheolaidd yn gwella'r siawns o fod yn llwyddiannus yn yr ysgol.*

- *Dylid nodi, er bod disgresiwn gan benaethiaid i ganiatáu absenoldeb yn ystod y tymor,* ***ni fydd ysgolion fel arfer yn awdurdodi gwyliau teulu*** *neu* ***apwyntiadau arferol* yn ystod y tymor.***

- ***Os oes gan eich plentyn absenoldeb heb awdurdod neu os yw eich plentyn yn gyson yn hwyr, gall yr ysgol ofyn i'r awdurdod lleol drefnu cosb ariannol.***

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i sicrhau fod presenoldeb eich plentyn yn dda.

Gallwch barhau i wneud hyn drwy sicrhau bod eich plentyn yn yr ysgol yn brydlon a thrwy beidio â threfnu gwyliau teulu neu apwyntiadau arferol yn ystod amser tymor. Fodd bynnag, os ydych yn cael trafferthion gyda phresenoldeb eich plentyn, siaradwch â'ch ysgol a all drefnu cefnogaeth i chi.

Yr wyf yn hyderus y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella presenoldeb ymhellach a sicrhau bod disgyblion Sir Gaerfyrddin yn cyrraedd eu potensial.

Yn ddiffuant,

Gareth Morgans, Prif Swyddog Addysg

ERW *yw'r consortia rhanbarthol sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Nedd Port Talbot, Penfro, Powys ac Abertawe.*

Wrth ***apwyntiadau arferol*** *rydyn ni'n cyfeirio at asesiadau fel apwyntiadau deintyddol, llygaid, apwyntiadau meddygol nad ydynt yn rhai brys a.y.b. lle mae rhieni/gwarcheidwaid yn gallu dylanwadu ar amseriad yr apwyntiadau.*